PWYLLGOR CRAFFU ADDYSG A GWASANAETHAU CYMDEITHASOL

COFNODION Y CYFARFOD AML-LEOLIAD A GYNHALIWYD YN SWYDDFEYDD Y CYNGOR YN NHŶ PENALLTA A THRWY MICROSOFT TEAMS DYDD MAWRTH 4 MEHEFIN 2024 AM 5.30PM

YN BRESENNOL:

Y Cynghorydd T. Parry – Cadeirydd
Y Cynghorydd B. Miles – Is-gadeirydd

Cynghorwyr:

E.M. Aldworth, C. Bishop, A. Broughton-Pettit, M. Chacon-Dawson, P. Cook, D. Cushing, M. Evans, A. Farina-Childs, C. Gordon, T. Heron, A. Leonard, J. Roberts, J. Simmonds, S. Skivens a J. Winslade.

Aelod Cabinet:

Y Cynghorydd C. Andrews (Addysg a Chymunedau).

Ynghyd â:

Swyddogion: Swyddogion: R. Edmunds (Cyfarwyddwr Corfforaethol – Addysg a Gwasanaethau Corfforaethol), K. Cole (Prif Swyddog Addysg), G. Jenkins (Cyfarwyddwr Gwasanaethau Cymdeithasol Dros Dro), J. Williams (Cyfarwyddwr Cynorthwyol – Gwasanaethau i Oedolion), S. Richards (Pennaeth Cynllunio a Strategaeth Addysg), A. West (Rheolwr Gwasanaethau Llunio Lleoedd a Chymunedau Dysgu Cynaliadwy), P. Warren (Arweinydd Strategol Gwella Ysgolion), S. Ellis (Arweinydd Cynhwysiant ac Anghenion Dysgu Ychwanegol), J. Duggan (Pennaeth Cynorthwyol), K. Honey (Prif Seicolegydd Addysg), J. Southcombe (Rheolwr Cyllid), L. Pine (Swyddog Lles Addysg Arweiniol), C. Parry (Ysgol Lewis, Pengam), L. Denton (Ysgol Gyfun Lewis i Ferched), M. Jacques (Swyddog Craffu), S. Hughes (Swyddog Gwasanaethau Pwyllgor) a J. Lloyd (Swyddog Gwasanaethau Pwyllgor).

Hefyd yn bresennol:

Y Cynghorwyr S. Morgan a J. Pritchard, a'r Aelod Cyfetholedig Mr M. Western (Cynrychiolydd Comisiwn Archesgobaethol Eglwys Uniongred Rwsia Caerdydd dros Addysg).

TREFNIADAU RECORDIO A PHLEIDLEISIO

Atgoffodd y Cadeirydd y rhai oedd yn bresennol fod y cyfarfod yn cael ei ffrydio'n fyw, ac y byddai recordiad ar gael i'w weld drwy wefan y Cyngor, ac eithrio trafodaethau sy'n ymwneud ag eitemau cyfrinachol neu eithriedig. Cliciwch yma i weld.

1. YMDDIHEURIADAU AM ABSENOLDEB

Cafwyd ymddiheuriadau am absenoldeb gan y Cynghorydd K. Woodland, Mrs T. Millington (Cynrychiolydd Rhiant-lywodraethwyr), Mrs P. Ireland (Yr Undeb Addysg Cenedlaethol), Mrs K. Cole (Yr Undeb Addysg Cenedlaethol), a Mr D. Davies (Cymdeithas Llywodraethwyr Caerffili).

2. DATGANIADAU O FUDDIANT

Ni chafwyd datganiadau o fuddiant ar ddechrau'r cyfarfod, nac yn ystod y cyfarfod.

3. YSTYRIED UNRHYW FATER A GYFEIRIWYD AT Y PWYLLGOR CRAFFU YN UNOL Â'R WEITHDREFN GALW I MEWN.

Ni chyfeiriwyd unrhyw faterion at y Pwyllgor Craffu yn unol â'r weithdrefn galw i mewn.

4. BLAENRAGLEN WAITH Y PWYLLGOR CRAFFU ADDYSG A GWASANAETHAU CYMDEITHASOL

Cyflwynodd y Rheolwr Craffu yr adroddiad, a oedd yn rhoi gwybod i'r Pwyllgor am ei Flaenraglen Waith a gynlluniwyd ar gyfer y cyfnod rhwng mis Mehefin 2024 a mis Mawrth 2025.

Yn dilyn ystyried yr adroddiad, cynigiwyd ac eiliwyd cymeradwyo'r argymhelliad. Cytunwyd ar hyn yn unfrydol drwy ddefnyddio Microsoft Forms.

> PENDERFYNWYD cyhoeddi Blaenraglen Waith y Pwyllgor Craffu Addysg a Gwasanaethau Cymdeithasol fel y'i hatodwyd i bapurau'r cyfarfod, ar wefan y Cyngor.

ADRODDIADAU'R SWYDDOGION

Rhoddwyd ystyriaeth i'r adroddiadau canlynol.

5. BWRDD ÔL-16, UN RHYW A LLEOEDD DROS BEN – CYNNIG I GAU YSGOL GYFUN LEWIS I FERCHED A GWNEUD NEWID A REOLEIDDIR I YSGOL LEWIS, PENGAM.

Cyflwynodd y Cynghorydd C. Andrews (Aelod Cabinet dros Addysg a Chymunedau) yr adroddiad a oedd yn ymgynghori'n swyddogol â'r Aelodau mewn perthynas ag argymhelliad y Bwrdd Ôl-16, Un Rhyw a Lleoedd Dros Ben i gau Ysgol Lewis i Ferched a gwneud newid a reoleiddir i Ysgol Lewis Pengam i'w newid o un rhyw i gydaddysg o fis Medi 2025.

Dywedwyd wrth yr Aelodau y byddai safle Ysgol Lewis i Ferched yn cael ei gadw fel darpariaeth i Ysgol Lewis Pengam i reoli'r pontio dros nifer o flynyddoedd (lleihau'r effaith ar ddisgyblion yn sefyll arholiadau a galluogi staff a disgyblion i gael eu hintegreiddio dros amserlen briodol).

Holodd Aelod am oblygiadau cost cadw Ysgol Lewis i Ferched fel darpariaeth i Ysgol Lewis Pengam i gynorthwyo'r broses bontio. Dywedodd Rheolwr y Gwasanaeth Llunio Lleoedd a Chymunedau Dysgu Cynaliadwy wrth yr Aelodau fod eiddo ysgolion yn cael eu cynnal drwy arolygon cyflwr ysgolion presennol a rhoddodd sicrwydd na ddisgwylir buddsoddiad ychwanegol ar safle Ysgol Lewis i Ferched. Clywodd yr Aelodau hefyd sut y gallai'r cyfnod o ddwy flynedd a gynigir yn yr adroddiad newid.

Gofynnodd Aelod a fyddai'n rhaid i staff Ysgol Lewis i Ferched wneud cais i gadw cyflogaeth a mynegodd bryder nad oedd staff y ddwy ysgol yn cael eu trin yn gyfartal yn hyn o beth.

Dywedodd y Prif Swyddog Addysg wrth yr Aelodau, pan fyddai penderfyniad wedi'i wneud, byddai'r Cyngor yn gweithio gyda'r ddau Bennaeth i gyflawni canlyniadau da i'r staff presennol pe bai'r newidiadau arfaethedig yn mynd yn eu blaen a bod nifer y disgyblion yn Ysgol Lewis Pengam yn dyblu o ganlyniad. Cyflawnwyd hyn gyda staff yn Ysgol Gyfun Cwmcarn dan amgylchiadau tebyg. Fodd bynnag, ail-ddwedwyd wrth yr Aelodau y byddai Ysgol Lewis i Ferched yn cael ei chau o dan y cynnig. Amlinellodd Pennaeth Ysgol Lewis Pengam (Mr Chris Parry) i'r Aelodau sut y rhagwelwyd y byddai staff yn dilyn disgyblion Ysgol Lewis i Ferched pe bai'r cynnig yn cael ei dderbyn a thynnodd sylw at y gwaith cydweithredol yr oedd eisoes yn ei wneud gyda Phennaeth Ysgol Lewis i Ferched. Holodd yr Aelod a oedd rhagdybiaeth sylfaenol bod cyflogaeth yn Ysgol Lewis Pengam yn ddiogel ac nad oedd yr un peth yn wir yn Ysgol Lewis i Ferched.

Cydnabu'r Prif Swyddog Addysg y dehongliad ond ailadroddodd, pe bai'r cynnig yn cael ei dderbyn, bod Ysgol Lewis Pengam wedi ymrwymo i ehangu ei thîm staff i gynnwys cymaint o staff â phosibl o Ysgol Lewis i Ferched. Gofynnodd yr Aelod am eglurder ynghylch ei dehongliad bod staff y ddwy ysgol yn cael eu trin yn wahanol. Derbyniodd y Prif Swyddog Addysg fod hyn yn wir oherwydd y statws gwahanol yn y ddwy ysgol gan mai'r cynnig oedd cau Ysgol Lewis i Ferched.

Mynegodd yr Aelod y farn bod y cynlluniau yn gyfystyr â throsfeddiant yn hytrach nag uno, a dywedodd y Rheolwr Gwasanaeth Llunio Lleoedd a Chymunedau Dysgu Cynaliadwy wrth yr Aelodau fod y Cyngor wedi dilyn canllawiau Llywodraeth Cymru wrth gynnig cau un ysgol a'r newid rheoleiddiedig i'r ysgol arall. Mynegodd yr Aelod bryderon gan fod staff y ddwy ysgol yn cael eu trin yn wahanol a holodd am safbwynt yr Undebau Llafur. Dywedodd y Prif Swyddog Addysg wrth y Pwyllgor fod yr Undebau Llafur wedi bod yn gefnogol i'r graddau bod ganddyn nhw hyder yn y Cyngor oherwydd y ffordd yr ymdriniwyd â sefyllfaoedd tebyg yn flaenorol.

Gofynnodd Aelod a fyddai unrhyw ddosbarthiadau un rhyw yn y dyfodol pe byddai'r cynnig yn cael ei dderbyn. Amlygodd y Prif Swyddog Addysg mai symud i statws cyd-addysg oedd un o'r ffactorau a ysgogodd y cynnig a dywedodd fod rhaglen bontio wedi'i llunio gan y ddau bennaeth a fyddai'n caniatáu i ddisgyblion Blwyddyn 11 sy'n mynd trwy lwybrau cymhwyster ar hyn o bryd gael eu haddysgu mewn dosbarthiadau un rhyw. Byddai pob dosbarth yn cyrraedd statws cyd-addysg o 2026 ymlaen.

Holodd Aelod pryd yr awgrymwyd gyntaf y dylid uno'r ddwy ysgol ar un safle. Dywedodd y Prif Swyddog Addysg wrth yr Aelodau fod trafodaethau o fewn y clwstwr wedi bod yn digwydd ers tua 2000. Gofynnodd yr Aelod hefyd am farn disgyblion. Dywedodd Pennaeth Ysgol Lewis Pengam (Mr Chris Parry) wrth yr Aelodau fod y cynnig wedi cael cefnogaeth unfrydol yng Nghyngor yr Ysgol. Amlinellodd Pennaeth Ysgol Lewis i Ferched (Ms Lynette Denton) sut mae angen iddi ymgynghori'n ffurfiol â'i disgyblion ond tynnodd sylw at y ffaith bod y naws gyffredinol yn gadarnhaol gan fod pob disgybl wedi cael profiad o addysg ar y cyd ar lefel Ysgol Gynradd. Amlygodd Rheolwr y Gwasanaeth Llunio Lleoedd a Chymunedau Dysgu Cynaliadwy hefyd y byddai barn disgyblion yn cael ei chynnwys fel rhan o'r broses ymgynghori. Eglurodd yr Aelod fod gan Ysgol Lewis Pengam y capasiti i dderbyn y disgyblion ychwanegol, gan fod yr ysgol yn gweithredu islaw'r capasiti ar hyn o bryd.

Gofynnodd Aelod a fyddai angen gwaith adeiladu ychwanegol pe byddai'r cynnig yn cael ei dderbyn. Dywedodd Rheolwr y Gwasanaeth Llunio Lleoedd a Chymunedau Dysgu Cynaliadwy fod rhagamcanion hyd at 2031 wedi'u cynnwys yn y Pecyn Ymgynghori ac, ar sail y data hyn, daethpwyd i'r casgliad na fyddai angen unrhyw waith adeiladu ychwanegol ar safle Ysgol Lewis Pengam. Clywodd yr Aelodau hefyd sut yr oedd swyddogion wedi gweithio gyda chydweithwyr yn yr adran Gynllunio a bod yr effaith bosibl ar niferoedd disgyblion o unrhyw ddatblygiadau yn y dyfodol wedi'i chynnwys yn y cynlluniau.

Gofynnodd Aelod am ddiweddariad ar y contract Menter Cyllid Preifat yn Ysgol Lewis Pengam, gan fod y Cyngor wedi cytuno i derfynu'r contract yn gynt na'r disgwyl oherwydd y costau cynnal a chadw dan sylw. Dywedodd y Cyfarwyddwr Corfforaethol dros Addysg a Gwasanaethau Corfforaethol wrth yr Aelodau mai dyma oedd yr achos, a bod y Cyngor, ar

hyn o bryd, yn trafod gyda'r darparwr Menter Cyllid Preifat a'i fod hefyd wedi cael gwybod nad oedd y cynnig dan sylw yn cael unrhyw effaith ar y trafodaethau hyn.

Holodd Aelod ynghylch trefniadau teithio disgyblion a holodd a fyddai gan rai disgyblion yr hawl i gludiant am ddim mwyach pe byddai'r cynnig yn mynd yn ei flaen. Dywedodd Rheolwr y Gwasanaeth Llunio Lleoedd a Chymunedau Dysgu Cynaliadwy wrth yr Aelodau nad oedd hyn wedi'i ystyried ar hyn o bryd, ond bod Polisi Trafnidiaeth ar waith a fyddai'n cael ei gymhwyso'n briodol ar ôl i benderfyniad gael ei wneud ar y cynnig.

Ar ôl ystyried yr adroddiad, nododd y Pwyllgor Craffu Addysg a Gwasanaethau Cymdeithasol yr wybodaeth yn yr adroddiad a'r pecyn ymgynghori oedd ynghlwm. Cynigiodd yr Aelodau eu barn fel rhan o'r broses ymgynghori ar y cynnig a fydd yn cael ei nodi fel rhan o gofnodion y cyfarfod a'i gynnwys yn yr Adroddiad Ymgynghori a fydd yn cael ei gyflwyno i'r Cabinet fel rhan o'r broses benderfynu.

6. CYNNYDD O RAN GWEITHIO GYDAG YSGLION I YMGORFFORI DULLIAU GWEITHREDU I DDIWALLU ANGHENION PLANT A PHOBL IFANC SY'N EFFEITHIO AR LEIHAU GWAHARDDIADAU.

Cyflwynodd y Cynghorydd C. Andrews (Aelod Cabinet dros Addysg a Chymunedau) yr adroddiad a oedd yn rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf i'r Aelodau am gynnydd timau cymorth adrannau addysg yr Awdurdod Lleol wrth weithio gydag ysgolion i ymgorffori dulliau o ddiwallu anghenion plant a phobl ifanc sy'n effeithio ar leihau gwaharddiadau. Nod yr adroddiad hefyd oedd rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf am y cyfraddau gwahardd presennol.

Holodd Aelod sut mae disgyblion yn cael eu dewis at ddibenion ymyrraeth ac a fydd y gwasanaethau yn dal i fod ar gael i ddisgyblion pan ddaw'r prosiect i ben. Dywedwyd wrth yr Aelodau bod ysgolion yn dewis eu disgyblion eu hunain fel y maen nhw'n adnabyddus iddyn nhw. Holodd yr Aelod hefyd a oedd y disgyblion yn ymwybodol o'r gwasanaethau hyn. Dywedwyd wrth yr Aelodau y byddai'r holl wasanaethau yn parhau i fod ar gael i'r disgyblion ac na fyddai cyfyngiad amser arnyn nhw. Rhoddwyd gwybod i'r Aelodau hefyd am waith diweddar a wnaed gyda'r Fforwm Ieuenctid i gynllunio arolwg ynghylch yr ymyriadau lles sydd ar gael.

Gofynnodd Aelod am eglurhad ar sut mae Cyngor Bwrdeistref Sirol Caerffili yn cymharu ag awdurdodau lleol eraill yng Nghymru. Dywedwyd wrth yr Aelodau nad oedd data'r Cyngor ar hyn o bryd yn cymharu'n dda o safbwynt cenedlaethol, ond rhoddodd swyddogion sicrwydd i'r Pwyllgor fod gwaith yn cael ei wneud i fynd i'r afael â materion gwahardd. Rhoddwyd gwybod i'r Aelodau hefyd fod awdurdodau lleol yn cynnal digwyddiadau i rannu 'arferion da.' Nodwyd hefyd bod lefel y gwaharddiadau ers pandemig COVID-19 yn fater cenedlaethol a bod angen i ysgolion fynd i'r afael â heriau cysylltiedig a wynebir gan blant.

Holodd Aelod a yw disgybl yn cael ei wahardd pan fo bwlio wedi digwydd. Dywedwyd wrth yr Aelodau, lle bo gwaharddiad 'tymor penodol' yn berthnasol, y gellid cynnal sesiynau adferol gyda'r disgyblion dan sylw. Pan fydd gwaharddiad parhaol yn digwydd, gall y gwasanaeth Seicoleg Addysg gymryd rhan a phenderfynu ar yr opsiwn gorau ar gyfer y disgybl wrth symud ymlaen. Cafwyd trafodaeth ynglŷn â bwlio mewn ysgolion a'r cymorth a roddir i'r plant sy'n cael eu bwlio. Sicrhawyd yr Aelodau y dylai'r cymorth berthnasol fod ar gael i'r holl ddisgyblion dan sylw.

Holodd Aelod ynghylch y cyllid sydd ar gael gan Lywodraeth Cymru ar gyfer ymyriadau am gyfnod o 3 blynedd. Rhoddwyd gwybod i'r Aelodau bod hyfforddiant mewnol wedi'i roi i ysgolion i hyrwyddo cynaliadwyedd pe bai cyllid Llywodraeth Cymru'n dod i ben ar ddiwedd y cyfnod 3 blynedd. Byddai'r gwasanaeth Seicoleg Addysg yn parhau i gynorthwyo ysgolion lle bo angen.

Ar ôl ystyried yr wybodaeth yn yr adroddiad, cynigiodd y Pwyllgor Craffu Addysg a Gwasanaethau Cymdeithasol farn a sylwadau, a chynigiwyd ac eiliwyd bod yr argymhelliad yn cael ei gymeradwyo. Cytunwyd ar hyn yn unfrydol drwy ddefnyddio Microsoft Forms.

PENDERFYNWYD:

Cymeradwyo'r dull a ddefnyddir gan yr Awdurdod Lleol i ymgorffori dulliau gweithredu i ddiwallu anghenion plant a phobl ifanc sy'n effeithio ar leihau gwaharddiadau.

7. PRESENOLDEB DISGYBLION.

Cyflwynodd y Cynghorydd C. Andrews (Aelod Cabinet dros Addysg a Chymunedau) yr adroddiad a oedd yn rhoi trosolwg i'r Aelodau o'r strategaethau sy'n cael eu datblygu ar hyn o bryd i wella presenoldeb disgyblion, a dywedodd wrth yr Aelodau fod hyn wedi'i nodi fel prif flaenoriaeth ar gyfer gwella yn y strategaeth addysg, 'Dilyn Rhagoriaeth gyda'n Gilydd'.

Nododd Aelod nad oedd ffigurau presenoldeb yn ystyried y rhesymau dros absenoldeb, ac y gallai rhieni gael llythyr 'coch' pan fydd eu plentyn yn wirioneddol sâl a'r ysgol wedi'i hysbysu. Dywedwyd wrth yr Aelodau, os yw plentyn yn sâl, ni ddylai fod yn yr ysgol, ond mae presenoldeb yn yr ysgol yn flaenoriaeth a chydnabuwyd bod presenoldeb plentyn yn yr ysgol yn effeithio ar ei gyfleoedd yn y dyfodol. Cafwyd trafodaeth ynglŷn â monitro absenoldeb a'r rhesymau a geisir pan fo 'patrymau' o absenoldeb yn digwydd, h.y. gall plentyn fod yn absennol ar yr un diwrnod bob wythnos/mis. Gofynnodd yr Aelod am eglurhad ar y broses Hysbysiad Cosb Benodedig a lefel presenoldeb cyn defnyddio hwn. Dywedwyd wrth yr Aelodau bod y broses hon yn cael ei defnyddio fel 'dewis olaf' a, cyn hynny, byddai'r ysgol wedi cynnal trafodaethau parhaus gyda rhieni i benderfynu'r rheswm dros absenoldeb a'r ffordd fwyaf priodol ymlaen i ddatrys unrhyw faterion. Os bydd ysgol yn dymuno defnyddio'r broses Hysbysiad Cosb Benodedig, rhaid i gorff llywodraethu'r ysgol gymeradwyo hyn a dim ond os yw ym mholisi presenoldeb yr ysgol y gellir ei ddefnyddio. Rhoddwyd gwybod i'r Aelodau hefyd mai dim ond 13 o rybuddion oedd wedi'u cyhoeddi yn ystod y flwyddyn academaidd hon ac y byddai cyswllt rhwng y rhieni a Swyddogion Lles Addysg y Cyngor yn parhau drwy gydol y broses.

Gofynnodd Aelod am eglurhad ynghylch nifer y disgyblion sy'n mynd ar wyliau teuluol yn ystod tymor yr ysgol ac a oedd hyn wedi lleihau. Dywedwyd wrth yr Aelodau mai'r canllawiau gan Lywodraeth Cymru yw y gall disgybl gymryd hyd at 10 diwrnod o wyliau mewn amgylchiadau eithriadol a fyddai'n lleihau ei lefel presenoldeb i tua 90%. Pennaeth yr ysgol unigol sy'n gwneud y penderfyniad gan y byddai'n ystyried amgylchiadau teuluol y disgyblion.

Holodd Aelod a yw'r holl ddirwyon Hysbysiad Cosb Benodedig yn cael eu talu a'r camau a gymerwyd ar gyfer unrhyw ddirwyon heb eu talu. Rhoddwyd gwybodaeth i'r Aelodau ynghylch Hysbysiadau Cosb Benodedig ac erlyniadau am golli'r ysgol yn rheolaidd. Dywedwyd wrth yr Aelodau y gallai'r erlyniadau arwain at ddirwy uwch o hyd at £2,500 ac y byddai gan y rhiant wedyn gofnod troseddol hefyd. Gofynnodd yr Aelod hefyd am eglurhad ynghylch disgyblion sy'n cael prydau ysgol am ddim sydd â'r lefelau presenoldeb isaf ac a fyddai Hysbysiadau Cosb Benodedig yn addas, o ystyried amgylchiadau ariannol y teulu. Dywedwyd wrth yr Aelodau y byddai'r ysgol yn rhoi'r Hysbysiad Cosb Benodedig os oedd yn ystyried bod hyn yn briodol ac y byddai unrhyw Hysbysiad Cosb Benodedig heb ei dalu'n cael ei gyfeirio wedyn at yr Adran Lles Addysg, lle byddai cyswllt parhaus yn parhau â'r teulu, gan gynnwys cyfarfodydd â'r ysgol i ddatrys unrhyw faterion. Rhoddwyd sicrwydd i'r Aelodau mai mater Hysbysiad Cosb Benodedig fyddai'r 'dewis olaf' bob amser wrth ymdrin â phresenoldeb disgyblion.

Holodd Aelod sut mae presenoldeb yn cael ei gofnodi gan ysgol ac, yn benodol a yw hyn yn cael ei fonitro i gadarnhau bod y rheswm dros absenoldeb yn cael ei gofnodi'n gywir. Dywedwyd wrth yr Aelodau bod y Gwasanaeth Lles Addysg yn cael data o gofrestrau ysgolion ac yn cynnal hapwiriadau i sicrhau bod cofrestrau'n gywir. Darperir hyfforddiant mewn

gweithdai ar gyfer clercod ysgol, swyddogion cyswllt teulu a phenaethiaid fel bod yr wybodaeth ofynnol yn cael ei chofnodi'n gywir.

Gofynnodd Aelod am wybodaeth am y seminarau presenoldeb a fynychwyd gan benaethiaid. Dywedwyd wrth yr Aelodau bod hon yn fenter newydd yn benodol ar gyfer penaethiaid yn ogystal â'r gweithdai a fynychwyd gan aelodau eraill o staff. Rhoddwyd gwybod i'r Aelodau bod y seminar cyntaf wedi'i gynnal yn y gwanwyn yn dilyn adroddiad Estyn ar bresenoldeb ac arfer orau i gael disgyblion yn ôl i'r ysgol. Roedd yr ail seminar yn ymdrin â chanllawiau newydd ynghylch amserlenni llai, a mynychwyd y ddau seminar gan tua 60 o benaethiaid allan o 86 o ysgolion.

Gofynnodd Aelod am eglurhad ynghylch lefel uchel y disgyblion ag achosion difrifol o orbryder ac a oedd hyn wedi'i gynnwys yn y ffigurau presenoldeb. Dywedwyd wrth yr Aelodau bod y strategaeth a ddilynwyd ynghylch presenoldeb yn cynnwys cyswllt â'r teulu ac a oes unrhyw gamau y gellid eu cymryd i ddatrys unrhyw faterion presenoldeb. Holodd yr Aelod a yw ysgolion yn cydnabod disgybl sy'n dioddef o faterion gorbryder mewn modd amserol. Dywedwyd wrth yr Aelodau bod ysgolion yn cael pecyn cymorth strategaeth er mwyn asesu'r plentyn ac i benderfynu ar yr ymyriadau ysgol y gellir eu defnyddio i gynyddu lefel presenoldeb ysgol ar gyfer y plentyn hwnnw.

Holodd Aelod a oedd presenoldeb a hunanwerthuso ysgolion yn effeithio ar yr adnoddau sydd ar gael, gan gynnwys y broses 'tîm o amgylch yr ysgol'. Dywedwyd wrth yr Aelodau bod y broses hunanwerthuso'n cynnwys ymweliad gan swyddog ag ysgolion a thrafodaethau gyda'r corff llywodraethu i benderfynu ar y sefyllfa yn yr ysgol benodol honno, a ddilynir wedyn gan adroddiad gan y swyddog i'r ysgol. Dywedwyd wrth yr Aelodau y bwriedir cynnwys pob ysgol uwchradd erbyn diwedd y flwyddyn academaidd hon.

Gofynnodd Aelod am eglurhad ynghylch plant 'ar goll mewn addysg' ac a oedd hyn yn cyfeirio at blant sy'n symud allan o'r ardal. Dywedwyd wrth yr Aelodau bod hyn, yn dilyn canllawiau statudol gan Lywodraeth Cymru, yn cwmpasu plant nad ydyn nhw wedi'u cofrestru yn unman ar gyfer addysg. Gallai hyn gael ei achosi gan symud rhwng ysgolion neu y tu allan i'r Fwrdeistref Sirol neu'r Deyrnas Unedig, neu addysg gartref lle nad yw'r plentyn erioed wedi'i gofrestru mewn ysgol. Dywedwyd wrth yr Aelodau hefyd fod Llywodraeth Cymru yn cynhyrchu cronfa ddata at ddibenion rhannu gwybodaeth er mwyn dod o hyd i'r plant hyn os ydyn nhw'n byw yn y Fwrdeistref Sirol.

Gofynnodd Aelod a yw plant y Lluoedd Arfog yn cael eu 'tracio' gan eu bod yn gallu adleoli'n aml oherwydd natur eu hamgylchiadau teuluol. Dywedwyd wrth yr Aelodau bod y plant hyn yn cael eu 'tracio' mewn ysgolion gan eu bod nhw'n cael eu cynnwys mewn grwpiau agored i niwed. Rhoddwyd gwybodaeth i'r Aelodau hefyd fod yr holl ddata presenoldeb sy'n dilyn y broses hunanwerthuso yn cael ei rannu ag ysgolion. Nododd yr Aelod hefyd fod cyllid Llywodraeth Cymru ar gael i'r ysgolion hynny sydd â phlant y Lluoedd Arfog wedi'u cofrestru. Dywedwyd wrth yr Aelodau bod yr wybodaeth hon wedi'i rhannu ag ysgolion, a bod swyddog dynodedig o fewn y Cyngor sy'n gyswllt arweiniol ar gyfer plant y Lluoedd Arfog.

Ar ôl ystyried yr adroddiad, nododd y Pwyllgor Craffu Addysg a Gwasanaethau Cymdeithasol effaith strategaethau i wella presenoldeb disgyblion a chafodd yr Aelodau gyfle i ofyn cwestiynau, ceisio eglurhad pellach a chynnig barn.

Terfynwyd y cyfarfod am 7.15pm.

Wedi'i gymeradwyo fel cofnod cywir, yn ddarostyngedig i unrhyw ddiwygiadau a gytunir a'u cofnodir yng nghofnodion y cyfarfod a gynhelir ar 16 Gorffennaf 2024.

CADEIRYDD